

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Canolog Môn held  
at Conference Room - County Hall, Usk on Dydd Mercher, 22ain Mehefin, 2016 at 2.00  
pm**

**PRESENT:** County Councillor S. White (Chairman)  
County Councillor B. Strong (Vice Chairman)

County Councillors: E. Hacket Pain, P. Jones and A. Wintle

Also in attendance County Councillor(s):

## **OFFICERS IN ATTENDANCE:**

|                  |                                |
|------------------|--------------------------------|
| Deb Hill-Howells | Head of Community Led Delivery |
| Paul Keeble      | Traffic and Network Manager    |
| Richard Williams | Democratic Services Officer    |

## **APOLOGIES:**

County Councillors D. Blakebrough, P. Clarke, R. Edwards and B. Hayward

### **1. Etholiad Cadeirydd.**

Etholwyd y Cynghorydd Sir S. White fel Cadeirydd.

### **2. Apwyntiad Is-Gadeirydd.**

Penodwyd y Cynghorydd Sir B. Strong gennym fel Is-gadeirydd.

### **3. Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd y Cynghorydd Sir P. Jones fuddiant personol, manteisiol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau parthed cais am Grant Pwyllgor Ardal oddi wrth Neuadd Bentref Rhaglan, gan ei bod yn aelod o Weithgor Neuadd Bentref Newydd Rhaglan.

Datganodd y Cynghorydd Sir B. Strong fuddiant personol, manteisiol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau parthed ceisiadau am Grant Pwyllgor Ardal oddi wrth Gystadleuaeth Pentref Taclus Gorau'r Flwyddyn Gwent ac Eglwys Fedyddiedig Brynbuga gan ei fod yn aelod o'r ddau bwyllgor.

Datganodd y Cynghorydd Sir B. Strong fuddiant personol, manteisiol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau parthed ceisiadau am Grant Pwyllgor Ardal oddi wrth Gystadleuaeth Pentref Taclus Gorau'r Flwyddyn Gwent a Neuadd Gymunedol Tt. Thomas gan mai hi yw warden yr eglwys yn Eglwys Tt. Thomas ac yn aelod o Bwyllgor Pentref Taclus Gorau'r Flwyddyn Gwent

### **4. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cadarnhawyd a llofnodwyd gan y cadeirydd gofnodion Pwyllgor Ardal Canol Sir Fynwy, dyddiedig 9<sup>fed</sup> Mawrth 2016.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Canolog Môn held at Conference Room - County Hall, Usk on Dydd Mercher, 22ain Mehefin, 2016 at 2.00 pm

#### 5. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Ystyriwyd mater a godwyd gan aelod o'r cyhoedd dan gofnod 6.

#### 6. Deiseb – Pryderon am ddiogelwch ffordd yn Stryd Porthycarne / Heol y Fenni, Brynbuga.

Cynghorwyd ni ynghylch y ddeiseb a gyflwynwyd i Gyngor Sir Fynwy yn gwneud cais ar i'r Gyngor fynd i'r afael â materion yn ymwneud â diogelwch ffordd ar Stryd Porthycarne / Heol Y Fenni, Brynbuga.

Cyn ystyried yr adroddiad, caniaaodd y Cadeirydd i Mr. G. Perry, gwirfoddolwr cynllun gwarchod cyflymdra Cymuned Brynbuga, gyfarch y Pwyllgor. Wrth wneud hynny, nodwyd bod y grŵp yn cyfarfod unwaith yr wythnos a'i fod yn monitro cyflymdra cerbydau ar amrywiol adegau. Roedd y data a gasglwyd yn wahanol i'r rheiny a grybwyllwyd yn adroddiad y swyddog.

Mae dadansoddiad o'r data rhwng 00:01 awr ar 12<sup>fed</sup> Rhagfyr 2015 a 23:59 awr ar 25<sup>ain</sup> Rhagfyr 2015 yn dangos:

Cyfanswm y cerbydau 21857

Cyflymder troseddol = 54%

Cyflymdra cyfartalog 31milltir yr awr

54% o'r cerbydau dros 30 milltir yr awr

3% o'r cerbydau dros 45 milltir yr awr

Cyflymdra uchaf 65 milltir yr awr ar 23:46 awr ar 18/12/15.

**V85 = 39 milltir yr awr**

**(CYFARTALEDD 7 NIWRNOD)** dadansoddiad o 00:01 awr ar 12/12/15 i 23:59 awr ar 18/12/15.

Cyfanswm y cerbydau 11372

Cyflymder troseddol = 56%

Cyflymdra cyfartalog 31milltir yr awr

56% o'r cerbydau dros 30 milltir yr awr

3% o'r cerbydau dros 45 milltir yr awr

Cyflymdra uchaf milltir yr awr ar 23:46 awr ar 18/12/15.

**V85 = 39 milltir yr awr**

**(CYFARTALEDD 7 NIWRNOD)** dadansoddiad o 00:01 awr ar 19/12/15 i 23:59 awr ar 25/12/15.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Canolog Môn held at Conference Room - County Hall, Usk on Dydd Mercher, 22ain Mehefin, 2016 at 2.00 pm

Cyfanswm y cerbydau 10483  
Cyflymder troseddol = 52%

Cyflymdra cyfartalog 30 milltir yr awr

53% o'r cerbydau dros 30 milltir yr awr

3% o'r cerbydau dros 45 milltir yr awr

Cyflymdra uchaf milltir yr awr ar 01:16 awr ar 22/12/15.

#### **V85 = 39 milltir yr awr**

Wedi derbyn yr adroddiad a'r safbwyntiau a fynegwyd, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae gorfodi'r terfyn cyflymdra yn fater i'r heddlu.
- Mae croesi'r heol yn y lleoliad hwn yn beryglus.
- Roedd yr Aelod lleol dros Lanbadog wedi rhoi cynnig gerbron y Cyngor Llawn yn Nhachwedd 2015 ynghylch y terfyn cyflymdra 60 milltir yr awr drwy lonydd gwledig. Fodd bynnag ni dderbyniwyd unrhyw adborth.
- Mae cerbydau sydd wedi'u parcio ar hyd y stryd yn tueddu i arafu lawr traffig, yn gweithredu fel mesur gostegu traffig.
- Defnyddir cyflymdra cyfartalog i gytuno terfynau cyflymdra ar heolydd. Fodd bynnag, mae'r heddlu'n defnyddio gwahanol feini prawf i'r rheiny a ddefnyddir gan y grŵp gwarchod cyflymdra cymunedol.
- Rhagwelir y bydd yr Heddlu'n mynd yn ôl i'r safle ac yn cyflawni arolygon cyflymdra pellach.
- Mae'r dystiolaeth gyfredol yn dangos bod y terfyn cyflymdra presennol yn gywir.
- Mae datrysiadau posib yn cynnwys culhau'r heol, gosod arwyddion rhybudd sy'n fflachio.
- Byddai swyddogion yn hoffi hyrwyddo llwybr troed ar ochr arall yr heol drwy gyfrwng Cais Teithio Llesol.
- Bydd yr Heddlu'n monitro'r safle'n fuan. Cyflawnir arolygon a defnyddir y wybodaeth a gesglir i gymryd camau gweithredu priodol.
- Bydd aelodau'r cynllun gwarchod cyflymdra'n parhau i gyflawni'u monitro eu hunain.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Canolog Môn held at Conference Room - County Hall, Usk on Dydd Mercher, 22ain Mehefin, 2016 at 2.00 pm

Penderfynasom:

- (i) Nodi'r ddeiseb a'r camau gweithredu i'w cymryd hyd yn hyn, gan gynnwys nodi'r Grŵp Gwarchod Cyflymdra a ffurfiwyd gan breswylwyr lleol;
- (ii) Bod monitro cyflymdra pellach yn cael ei gyflawni cyn ystyried gwelliannau traffig ffisegol posib a fyddai hefyd angen eu blaenoriaethu ochr yn ochr â chynlluniau arfaethedig eraill ar hyd a lled Sir Fynwy.
- (iii) Bod y Pwyllgor Ardal yn derbyn adborth pellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

#### **7. Ceisiadau Grant Pwyllgor Ardal:**

Amlinellodd Pennaeth Cyflenwi a Arweinir gan y Gymuned y broses ar gyfer cyflwyno cyllid cyfalaf i sefydliadau sydd wedi cyflwyno ceisiadau am gyllid i'r Pwyllgor Ardal. Roedd £5000 o gyllid cyfalaf ar gael ar y pryd o gyllideb 2015/16.

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol am gyllid ac fe'u hystyriwyd gan y Pwyllgor Ardal:

#### **Pentref Taclus Gorau Gwent**

Gwnaed cais am: £250

Rheswm: Tuag at dreuliau teithio beirniaid gwirfoddol ar gyfer ymweld â'r pentrefi'n cystadlu a'u beirniadu. Hefyd, tuag at brynu tlysau a fframiau ar gyfer y tystysgrifau i'r ysgolion a'r pentrefi buddugol.

Wedi trafod y cais ystyriwyd nad oedd y cais yn cwrdd â'r meini prawf perthnasol.

Penderfynasom fod y cais yn cael ei wrthod. Felly, penderfynasom beidio â chefnogi'r cais hwn.

#### **Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gerddi Nelson**

Gwnaed cais am: £5000

Rheswm: Adfer a chadw tirwedd hanesyddol (Gradd II). Adfer Cofgolofn Nelson gyda'r sedd yr eisteddodd Nelson arni yn 1802, trwsio'r wal boeth hanesyddol a phlannu coed, gosod toiled i'r anabl i wella adnoddau i ymwelwyr.

Wedi ystyried y cais, penderfynodd y Pwyllgor beidio â chefnogi'r cais hwn.

#### **Eglwys Fedyddiedig Brynbuga**

Gwnaed cais am: : £2000

Rheswm: cadeiriau newydd i'r byrddau eisoes wedi'u prynu – gan roddion. Cadeiriau sy'n addas ar gyfer pob grŵp oedran o bob gallu. Gorchudd llawr newydd – ar faterion yn ymwneud â glendid a diogelwch.

## **MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

### **Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Canolog Môn held at Conference Room - County Hall, Usk on Dydd Mercher, 22ain Mehefin, 2016 at 2.00 pm**

Wedi ystyried y cais, penderfynasom gefnogi'r cais a chyfrannu £1000. Hefyd, cydgysylltu â Morley Sims i weld a oes unrhyw gadeiriau y gallai fod yn weddill i'r gofynion ac a ellid eu rhoi yn rhodd i Eglwys Fedyddiedig Brynbuga.

#### **Pwyllgor Rheoli Neuadd Bentref Llanisien**

Gwnaed cais am: : £4800

Rheswm: Prynu 100 o gadeiriau pentyradwy ar ddull cadeiriau cynhadledd throliâu y gellir eu storio'n hylaw ac 20 cadair blastig bentyradwy bellach.

Wedi ystyried y cais, penderfynasom gefnogi'r cais a chyfrannu £1000. Hefyd, cydgysylltu â Morley Sims i weld a oes unrhyw gadeiriau y gallai fod yn weddill i'r gofynion ac a ellid eu rhoi yn rhodd i bwllgor Rheoli Neuadd Bentref Llanisien.

#### **Cymdeithas Neuadd Bentref a Hamdden Rhaglan**

Gwnaed cais am: : £1068.01

Rheswm: Hwyluso darparu Wi-Fi yn yr Hen Ysgol Eglwys.

Wedi ystyried y cais, penderfynasom gefnogi'r cais a chyfrannu £1000.

#### **Y Cynghorydd Sir R. Edwards**

Gwnaed cais am: : £200

Rheswm: Dathlu pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed â pharti yn Neuadd Llanvaply ar 11<sup>eg</sup> Mehefin 2016.

Wedi ystyried y cais, penderfynasom beidio â chefnogi'r cais hwn am ei fod yn gais am gyllid referniw.

#### **Grŵp Sgowtiaid 1<sup>af</sup> Wyesham**

Gwnaed cais am: : £1009.11

Rheswm: Matiau campfa, troli a gazebo.

Wedi ystyried y cais, nodwyd bod angen gwybodaeth bellach. Bydd Pennaeth Cyflenwi a Arweinir gan y Gymuned yn ysgrifennu at yr ymgeisydd gan awgrymu bod y cais yn cael ailgyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Ardal yn nhymer yr Hydref.

Penderfynasom yn unol â hynny.

#### **Grŵp Amgylcheddol Brynbuga**

## **MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

### **Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Canolog Môn held at Conference Room - County Hall, Usk on Dydd Mercher, 22ain Mehefin, 2016 at 2.00 pm**

Gwnaed cais am: £1000

Rheswm: Adeiladu llwybr solet ar draws Cae Owain Glyndŵr.

Wedi ystyried y cais, penderfynasom gefnogi'r cais a chyfrannu £1000.

#### **Neuadd Pelham, Penallt**

Gwnaed cais am: £5000

Rheswm: Ail-ddylunio'n llwyr ac ail ddodrefnu'r gegin ar y llawr gwaelod gan gynnwys ailaddurno. Gwaith ar raddfa fechan i gynyddu gofod storio yn y gegin. Gosod drws dihangfa dân. Gwaith ar raddfa fechan i'r draenio allanol a gwaith palmantu. Disodli'r cyfarpar cegin a'r unedau storio. Disodli'r gwydr dwbl oedd wedi 'chwythu'.

Wedi ystyried y cais, penderfynasom beidio â chefnogi'r cais hwn.

#### **Eglwys Babyddol y Santes Fair, Cyngor Sir Fynwy**

Gwnaed cais am: £2750

Rheswm: Gwaith i'r ddihangfa dân, ailosod y slabiau palmantu, uwchraddio diogelwch a'r goleuadau i'r ddihangfa dân.

Wedi ystyried y cais, penderfynasom beidio â chefnogi'r cais hwn gan fod y rhan fwyaf ohono'n ymddangos yn waith cynnal a chadw ac felly heb fod yn gymwys.

#### **Sant Tomos y Merthyr, Overmonnow**

Gwnaed cais am: £1500

Rheswm: Cyfarpar a dodrefn cegin.

Wedi ystyried y cais, penderfynasom gefnogi'r cais a chyfrannu £1000.

**The meeting ended at 3.15 pm**